Byddai'n ddefnyddiol, felly, i'r Pwyllgor gael ymateb i'r argymhelliad hwn gan yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero Net. Disgwylwn i ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ein cyrraedd erbyn dydd Gwener 5 Ebrill, ac mae dadl yn y Senedd wedi cael ei threfnu ar gyfer dydd Mercher 17 Ebrill. Byddai'n ddefnyddiol iawn, felly, i'r Pwyllgor gael eich ymateb yn unol â'r amserlenni hynny.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru er gwybodaeth iddo.



Yn gywir,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Copi at: Y Gwir Anrhydeddus David Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Ein cyf/Our ref MA-LG-0154-24

Paul Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Copi i: Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

29 Chwefror 2024

Annwyl Paul,

Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2)2024

Rwyf wedi cael cais gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024") sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig, ac a fydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd ("y Confensiwn"), y mae'r Deyrnas Unedig yn barti contractio iddo.

Mae gan y DU rwymedigaeth o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr i gydweithredu ar reoli stociau pysgod a rennir drwy sefydliadau rhanbarthol neu is-ranbarthol priodol. Caiff rhywogaethau tiwna a thebyg i diwna eu rheoli'n fyd-eang drwy Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol; mae'r Confensiwn yn un enghraifft o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig yn flaenorol i ofynion y Confensiwn fel Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Ar ol gadael yr UE, mae'r DU wedi dod yn barti contractio i'r Confensiwn fel Gwladwriaeth arfordirol annibynnol. Mae'r offeryn hwn yn diweddar ac yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i gyfrif am ofynion pellach o dan y Confensiwn o ran pysgota hamdden a chwaraeon. O dan reolau ICCAT, ni ddylai partion contractio ganiatáu targedu tiwna asgell las yn eu dyfroedd at ddibenion chwaraeon neu hamdden heb awdurdodiad priodol. Bydd Rheoliadau 2024 yn mewnosod i Reoliad (UE) 2016/1627 a ddargedwir ystod o ddarpariaethau a fydd yn gwahardd pysgota hamdden a chwaraeon heb drwydded gan weinyddiaeth pysgodfeydd, yn achos Cymru a Pharth Cymru, byddai cyhoeddi trwyddedau yn fater i Weinidogion Cymru.

Fel parti contractio, mae gan y DU rwymedigaeth i weithredu mesurau (a elwir yn 'argymhellion') a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn. Er bod cynnal cytundebau rhyngwladol yn swyddogaeth a gedwir yn ôl, mae'r rhwymedigaethau a'u gweithrediad wedi'u datganoli i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig (e.e. pysgodfeydd) ac yn ymestyn i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a Pharth Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu argymhellion a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn nad ydynt eto wedi'u hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol ledled y DU mewn perthynas â'r Confensiwn, mae'n briodol eu bod yn cael eu gwneud ar sail y DU. Felly, rwy'n bwriadu rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Rheoliadau 2024, felly mae'r darpariaethau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y dyddiad gosod disgwylidig yw 14 Mawrth ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol sy'n golygu y gellir ei wneud yn dilyn penderfyniad.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a byddaf yn ysgrifennu mewn termau tebyg i Gadeirydd Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Papur tystiolaeth ar gyfer y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar gyfer Craffu Cyffredinol ym Mhwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledi

06/03/2024

Gwybodaeth a ddarparwyd i gynorthwyo'r Pwyllgor cyn presenoldeb y
Gweinidog ar gyfer Craffu Cyffredinol ar 6 Mawrth.

Cynnwys

Ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC).....	3
Digwyddiadau Sioe Deithiol.....	3
Cynllun Cynefin Cymru.....	4
Y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau	7
Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO)	9
Lles Anifeiliaid	9
Y Rhaglen i Ddileu TB.....	9
Polisi Clefydau Anifeiliaid	10
Ffiniau a Masnach Anifeiliaid.....	11

Ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC)

Digwyddiadau Sioe Deithiol

1. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC). Ar ôl cynnal tri digwyddiad llwyddiannus i randdeiliaid ddiwedd Rhagfyr 2023 gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n ymwneud â dylunio'r cynllun, trodd ein ffocws at gyfres o ddeg sioe deithiol ledled Cymru yn benodol ar gyfer ffermwyr.
2. Mae mwy na 3,200 o ffermwyr wedi mynychu'r digwyddiadau hyn, a gynhaliwyd rhwng 14:00 a thua 21:00, gyda chyflwyniadau rheolaidd gan uwch swyddogion drwy gydol y dydd. Cefnogwyd y digwyddiadau gan staff polisi a gweithredol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhai o Cyswllt Ffermio, Cysylltwyr Fferm a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd wrth law i ateb unrhyw gwestiynau ychwanegol.
3. Roedd y cyflwyniadau'n darparu mecanwaith i gyfathrebu cynnwys a bwriadau'r cynllun, ynghyd â'n dull o gyflawni hynny. Yn hytrach na bod yno i ddylanwadu ar benderfyniadau busnes, roedd swyddogion yn sicrhau bod ffermwyr yn deall y cynigion ac yn cael cyfle i roi adborth ar yr hyn sy'n gweithio iddyn nhw a'r hyn y gallai fod angen ei newid. Pwysleisiodd y digwyddiadau bwysigrwydd adborth drwy'r broses ymgynghori, gan adeiladu ar y dysgu a'r newidiadau a wnaed drwy dri ymgynghoriad blaenorol a dau gyfnod o gyd-ddylunio.
4. Roedd y mynychwyr yn gwerthfawrogi elfen bersonol y digwyddiadau. Er y cafwyd nifer dda o gwestiynau a heriau am strwythur y cynllun, y fethodoleg a lefel y taliadau, a rheolau'r cynllun, gwerthfawrogwyd y cyfle i gyfarfod â swyddogion a gofyn cwestiynau iddynt yn y cnawd.
5. Mae'n naturiol bod ffermwyr yn poeni am yr angen am newid. Er efallai nad yw'r Gweithredoedd Sylfaenol yn newydd i lawer ohonynt, mae'r syniad o daliad am Weithredoedd yn ddull gwahanol i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, gadawodd y mwyafrif o ffermwyr y cyfarfod yn fwy gwybodus am ein bwriadau, a chyda dealltwriaeth gliriach o sut y bydd y cynllun yn berthnasol iddyn nhw.
6. Mae swyddogion wedi mynychu digwyddiadau rhanddeiliaid eraill hefyd megis cynadleddau rhanbarthol undebau'r ffermwyr i hyrwyddo cynnwys yr ymgynghoriad ac annog ymatebion.
7. Mae'n amlwg bod yr ymgysylltu hwn, ynghyd â'r Ymgynghoriad, yn cyflawni ei nod o gael adborth gwerthfawr. Bydd yr adborth o ymgysylltiad rhanddeiliaid a'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad ffurfiol yn llywio cyngor, ynghyd â thystiolaeth arall, ar ddyluniad terfynol y cynllun.

Cynllun Cynefin Cymru

8. Mae Cynllun Cynefin Cymru'n gynllun amaeth-amgylcheddol i gynorthwyo'r pontio o ddiwedd y rhaglen hirfaith Glastir, a ariannwyd gan yr UE, ym mis Rhagfyr 2023, i lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025, lle mae cymorth tuag at gynnal a chadw cynefinoedd yn elfen allweddol o'r Gweithredoedd Sylfaenol.
9. Mae Cynllun Cynefin Cymru yn barhad pwysig o'n hymateb i'r argyfwng natur drwy gynnal cefnogaeth i'r sector yn y cyfnod cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r Cynllun yn gyfle i gynyddu arwynebedd y tir cynefin sy'n cael ei reoli ledled Cymru ac mae'n cefnogi parhad y gwaith sydd wedi digwydd drwy Glastir.
10. Drwy Gynllun Cynefin Cymru, rydym yn targedu ardaloedd lle gellir sicrhau'r manteision amgylcheddol mwyaf. Mae hwn yn gam pwysig ar y daith tuag at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i egwyddorion Rheoli Tir yn Cynaliadwy, a fydd yn cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ar yr un pryd.
11. Agorodd y cyfnod ymgeisio ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru ar 29 Medi 2023 a daeth i ben ar 10 Tachwedd 2023.

Datganiadau o Ddiddordeb

12. Cafodd cyfanswm o 3,254 o Ddatganiadau o Ddiddordeb eu derbyn ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru a Chynllun Cynefin Cymru (Tir Comin). Roedd tua hanner yr holl Ddatganiadau o Ddiddordeb unigol gan fusnesau fferm nad oedd ganddynt Contract Glastir Uwch.
13. Wrth sefydlu Cynllun Cynefin Cymru, roeddem yn dymuno cynnal y buddsoddiad mewn gwarchod cynefin a wnaed eisoes drwy raglen Glastir, ond hefyd cynyddu arwynebedd tir cynefin drwy ehangu'r cynnig o gymorth i ffermwyr cymwys nad oeddent wedi cymryd rhan yn Glastir o'r blaen.
14. Ers cyhoeddi contractau Glastir cyntaf yn 2012, mae busnesau fferm Cymru ac amgylchedd Cymru wedi elwa ar dros £336m o gyllid a gefnogodd y sector i gyfrannu tuag at ein hymrwymiaid datgarboneiddio a bioamrywiaeth. Fodd bynnag, roedd ymestyn contractau Glastir yn atal datganiadau o ddiddordeb newydd rhag cael eu hystyried, ac yn atal cyfranogwyr newydd rhag ymuno â'r cynllun.
15. O ganlyniad, un o brif egwyddorion Cynllun Cynefin Cymru oedd y dylai fod yn agored i bob busnes fferm cymwys – i gynnig cymorth i'r rhai a oedd wedi cymryd rhan yn Glastir i barhau â'u gweithgareddau er budd yr amgylchedd, ac i gynnig cyfle i'r rhai nad oeddent wedi elwa ar fod yn rhan o Glastir o'r blaen gael eu cefnogi i weithredu i amddiffyn ein hamgylchedd.
16. Mae dadansoddiad llawn o'r Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd yn y tablau isod.

Cynllun Cynefin Cymru

Ymgeisydd	Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd	% Cyfanswm Datganiadau o Ddiddordeb y Cynllun	% cyfranogwyr Glastir Uwch
Unigolyn – cyfranogwr Glastir	1572	51%	77%
Unigolyn – nad yw'n gyfranogwr Glastir	1516	49%	
Cyfanswm y Datganiadau o Ddiddordeb unigol	3088		

Cynllun Cynefin Cymru (Tir Comin)

Ymgeisydd	Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd	% Cyfanswm Datganiadau o Ddiddordeb y Cynllun	% cyfranogwyr Glastir - Tir Comin
Cymdeithas Bori – cyfranogwr Glastir - Tir Comin	166	100%	93%

Cynnig grant a chyhoeddi contractau

17. Dechreuodd y cymorth drwy Gynllun Cynefin Cymru ar 1 Ionawr 2024 a dywedwyd wrth ddarpar ymgeiswyr y byddai unrhyw gontractau llwyddiannus yn cael eu hól-ddyddio i 1 Ionawr 2024 o'r cychwyn cyntaf. Galluogodd hyn ddarpar ymgeiswyr i ddeall y broses a phwyso a mesur hyn wrth ystyried a ddylid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb.
18. Er bod amseru'r broses o osod cyllideb ar gyfer 2024-25, a'r rhyngweithio â hi, wedi effeithio ar y cynnig grant a'r broses cyhoeddi contractau ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru, rydym wedi cymryd camau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai a gyflwynodd Ddatganiad o Ddiddordeb am y camau nesaf a beth i'w ddisgwyl ar bob cam.
19. Anfonwyd llythyrau dethol at bob ymgeisydd llwyddiannus ar 20 Rhagfyr 2023. Roedd y llythyr hwn yn esbonio'r camau sydd angen eu cymryd i fodloni amodau'r cytundeb o 1 Ionawr 2024 hefyd.
20. Cyhoeddwyd llythyrau cynnig grant (contract) o 17 Ionawr 2024. Er mwyn rhoi amser i ymgeiswyr ystyried y manylion, rydym wedi pennu dyddiad cau o 29 Chwefror ar gyfer derbyn contract.

21. Mae pob ymgeisydd cymwys wedi cael cynnig dyfarniad grant. Bydd cyfanswm y cymorth ariannol a gynigir drwy'r cynllun yn cael ei gadarnhau ar ôl derbyn pob derbyniad contract.
22. Yn yr un modd, bydd cyfanswm arwynebedd tir cynefin a gefnogir yn cael ei gyfrifo hefyd unwaith y bydd pob derbyniad contract wedi dod i law. Mae data cychwynnol o Ddatganiadau o Ddiddordeb yn awgrymu y gallai hyn fod oddeutu 276,000ha o dir cynefin ar ffermydd unigol. Pe bai'r ffigurau hyn yn cael eu cynnal, byddai hyn yn gynnydd ar y 207,000ha a gefnogwyd o dan gontractau Glastir Uwch. Mae data cychwynnol ar Ddatganiadau o Ddiddordeb yn awgrymu y byddai tua 114,000ha o dir comin yn cael ei gefnogi drwy Gynllun Cynefin Cymru. Mae hyn yn debyg i'r 115,000ha a gefnogwyd yn flaenorol o dan gynllun Tir Comin Glastir.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau

23. Rydym yn ymroddedig o hyd, drwy'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, i weithio gyda'r gymuned ffermio i ddefnyddio'r rheoliadau i wella ansawdd dŵr ac aer, gan dargedu'r gweithgareddau hynny y gwyddom eu bod yn achosi llygredd.
24. Ar 10 Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cynllun trwyddedu ar gyfer defnyddio nitrogen o dail da byw; a chyhoeddi'r bwriad i gyflwyno dull cyfnod penodol i alluogi defnyddio mwy o faethynnau o dail da byw lle gellir dangos bod y cnwd ei angen.
25. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, rydym wedi cyflwyno dull cyfnod penodol o Reoli Maethynnau'n Well (ENM) yn awr. Mae hyn yn galluogi ffermydd, lle bo hynny'n briodol, i ddefnyddio mwy o dail da byw ar eu tir hyd nes y bydd y rheoliadau'n cael eu gweithredu'n llawn ym mis Ionawr 2025. Er mwyn lliniaru'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r dull dros dro, bydd angen gofynion ychwanegol i ddiogelu'r amgylchedd ar unrhyw fferm sy'n defnyddio mwy na 170 cilogram o nitrogen yr hectar y flwyddyn o dail da byw.
26. Rhaid i ddaliadau sy'n dymuno cymryd rhan yn y dull ENM gyflwyno hysbysiad i Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn 31 Mawrth 2024 y bydd angen iddo gynnwys cynllun rheoli maethynnau'n well y daliad, ymysg gwybodaeth arall. Mae canllawiau ar y dull ENM ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
27. Mae'r dull ENM yn canolbwyntio ar un mesur yn unig, sef defnyddio nitrogen o dail da byw dros 170 cilogram yr hectar y flwyddyn, o fewn set ehangach o reoliadau. Nid yw'n effeithio ar agweddau eraill ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt eisoes ar waith.
28. Bydd swyddogion yn cynnal adolygiad statudol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol i ddod i ben cyn mis Ebrill 2025. Bydd yr adolygiad hwn yn gyfle i ddeall ymhellach effeithiolrwydd y rheoliadau a sut mae'r rheoliadau'n rhyngweithio ag arferion eraill rheoli tir yn gynaliadwy. Bydd llawer o'r mesurau amgen arfaethedig yn cael eu hystyried hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn, fel y nodir yn llythyr 25 Mai 2023, at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Bydd swyddogion yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid fel rhan o'r broses adolygu hon.
29. Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i barhau i drafod defnyddio'r Rheoliadau gyda'r sector a bydd yn parhau â'r ddeialog hon wrth i ni adolygu'r Rheoliadau.
30. Ers i fesurau cychwynnol y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ddod i rym, rydym wedi cynnig dros £31m o gymorth uniongyrchol tuag at fuddsoddiadau seilwaith ar ffermydd. Hefyd, rydym wedi ymrwymo £2.55m i gyflawni'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, £1m ar gyfer 2023-24 ac £1.55m ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn cynnwys gorfodi'r dull ENM.

31. Ym mis Hydref 2022, dywedon ni ein bod yn darparu hyd at £20m o gyllid ychwanegol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Yn 2023, cynigiwyd £3.0m arall drwy ffenestr ymgeisio'r Cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau.
32. Rydym yn ystyried cynnig cymorth pellach yn 2024, sy'n cynnwys y posibilrwydd o agor rhagor o ffenestri ymgeisio ar gyfer y Cynlluniau Gorchuddio Iardiau a Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau.

Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO)

Lles Anifeiliaid

Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid - Ymgynghoriad

33. Mae gwaith y Rhaglen Lywodraethu ar bolisi gorfodi a thrwyddedu lles anifeiliaid yn parhau i symud ymlaen ac, ar ôl cwblhau galwad am dystiolaeth wedi'i thargedu i sefydlu a yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn dal i fod yn ddigonol, lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar 08 Rhagfyr 2023. Dyma gam cyntaf datblygiad Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid ac mae'n archwilio'r posibilrwydd o drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosion lles anifeiliaid. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ynghylch dyfodol rasio milgwn yng Nghymru hefyd, a bydd yn cau ar 01 Mawrth.

Perchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn

34. Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau drwy gydol 2024 i hyrwyddo a chefnogi perchnogaeth gyfrifol ar gŵn yng Nghymru. Byddant yn dilyn yr uwchgynhadledd Gweithredu ar Berchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023. Rydym yn parhau i weithio gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol, yr heddlu, iechyd y cyhoedd, sefydliadau'r trydydd sector a'r rhai sy'n ymgychu dros les cŵn a diogelwch y cyhoedd.

Lles Anifeiliaid a Ffermir

35. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) i Senedd y DU ym mis Rhagfyr. Mae'r Bil yn ei gwneud hi'n drosedd allforio da byw a cheffylau i'w lladd a'u pesgi, gan ddechrau ym Mhrydain neu gael eu cludo drwy Brydain i drydedd wlad.
36. Rydym yn cefnogi gwaharddiad, a gosododd y Gweinidog Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ar gyfer y darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ar 19 Rhagfyr.

Y Rhaglen i Ddileu TB

37. Ym mis Mawrth 2023, lansiodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Gynllun Cyflawni pum mlynedd.
38. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn didoli ceisiadau ar gyfer Bwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Cyngori Technegol (TAG) a benodir yn gyhoeddus a fydd yn ffurfio trefniadau llywodraethu newydd.
39. O 1 Chwefror 2024, mae newidiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 yn golygu bod profion cyn symud ar wartheg neu anifeiliaid buchol eraill sydd wedi'u lleoli yn Ardal TB Isel Cymru yn cael eu hailgyflwyno. Mae profion ar ôl symud yn cael eu cyflwyno yn yr

- Ardaloedd TB Canolradd. Mae'r ddau fesur yn ceisio mynd i'r afael â lefelau cynyddol o ddigwyddedd clefydau yn lleol.
40. Yn Sir Benfro, mae prosiect a arweinir gan y diwydiant ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sy'n datblygu dulliau o reoli TB buchol, yn ychwanegol at y mesurau statudol a ddefnyddir ar hyn o bryd, wedi'i sefydlu. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar bennu'r risg sydd ynghlwm wrth glefyd gweddillol ymhlith gwartheg a gaiff brofion clir, ac yn datblygu llwybr ar gyfer lleihau'r risg o ran trosglwyddo'r clefyd o fuwch i fuwch. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dull seiliedig ar risg yn ymwneud â phennu a rheoli anifeiliaid risg uchel drwy eu lladd a thrwy sicrhau bod milfeddygon yn goruchwyllo arferion bioddiogelwch.
41. Mae'r mater o ladd gwartheg ar y fferm at ddibenion TB, yn enwedig gwartheg sydd yng nghyfnod olaf eu beichiogrwydd a heffrod, wedi bod yn destun pryder gan undebau'r ffermwyr a chynrychiolwyr ffermwyr, ac mae'n denu llawer o sylw yn y cyfryngau megis y bennod ddiweddar o Ffermio ar S4C. Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd wedi ymrwymo i gomisiynu adolygiad brys o'r polisi, a sut y rheolir amgylchiadau o'r fath, i'w ystyried yn flaenoriaeth gan y Grŵp Cyngor Technegol. Mae swyddogion wrthi'n ymgynghori ag undebau'r ffermwyr ar hyn o bryd i gael eu barn ac yn cysylltu â gweinyddiaethau datganoledig eraill i baratoi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r Grŵp Cyngor Technegol ei hystyried yn syth unwaith y bydd wedi'i sefydlu.
42. Mae iechyd meddwl y rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant amaethyddol yn peri pryder mawr; mae Llywodraeth Cymru'n annog yn gryf y dylai unrhyw un sy'n dioddef straen neu broblemau iechyd meddwl eraill siarad ag arbenigwr yn y maes hwn, megis Tir Dewi, Sefydliad DPJ neu Rwydwaith y Gymuned Ffermio.

Polisi Clefydau Anifeiliaid

43. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a gweinyddiaethau eraill Prydain i gynnal gwyliadwriaeth ar glefydau anifeiliaid a monitro'r risg o ymlediadau clefydau anifeiliaid. Mae'r gwaith hwn yn ein galluogi i baratoi a gweithredu mesurau i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.
44. Mae cynlluniau wrth gefn yn ofynnol yn ôl y gyfraith i reoli brigiadau o achosion o glefydau egsotig hysbysadwy mewn anifeiliaid. Mae'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid yn mynnu bod cynlluniau o'r fath ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Clefydau Egsotig Hysbysadwy Anifeiliaid yng Nghymru yn disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n rheoli brigiad o achosion neu achos o glefyd egsotig hysbysadwy mewn anifeiliaid. Mae'r Cynllun Wrth Gefn a'r strategaethau rheoli ar gyfer clefydau penodol, sy'n ategu'r cynllun, megis Strategaeth Rheoli Clefyd y Tafod Glas Prydain Fawr, yn darparu'r gofynion cyfreithiol hyn.

45. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni brofi ein cynlluniau wrth gefn yn rheolaidd; cynhaliwyd yr ymarfer diwethaf ym mis Medi y llynedd. Mae ymarferion brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid yn caniatáu i Lywodraeth Cymru sicrhau ein bod yn barod ac yn gallu nodi bylchau neu welliannau sy'n ofynnol i'r ddeddfwriaeth, y polisiau, y cynlluniau a'r strwythurau a ddefnyddir wrth reoli brigiad o achosion.
46. Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor a chyfathrebiadau i geidwaid anifeiliaid ynghylch clefydau anifeiliaid, sydd yn peri risg uwch o ymlediad ar hyn o bryd, megis ffliw adar a firws y Tafod Glas.

Ffiniau a Masnach Anifeiliaid

Carreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin: 31 Ionawr

47. Mae Model Gweithredu Targed y Ffin yn nodi dull seiliedig ar risg o gynnal gwiriadau drwy osod anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a phlanhigion mewn gwahanol gategorïau risg gyda'r potensial i leihau neu ddileu gwiriadau ar gyfer nwyddau risg isel a nwyddau gan fasnachwyr dibynadwy.
48. Mae'r Model yn gwella'r sefyllfa fioggiogelwch bresennol drwy gyflwyno mesurau rheoli sy'n seiliedig ar risg ar y mwyafrif helaeth o fewnforion o'r UE, a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r risg fioggiogelwch.
49. Mae'r newidiadau sy'n dod i rym ar 31 Ionawr yn cynnwys y canlynol:
 - Bydd angen rhoi hysbysiad ymlaen llaw hefyd am lwythi o nwyddau o lwerddon sy'n cael eu mewnfario i Brydain ar system IPAFFS Defra.
 - Bydd angen ardystiad iechyd allforio ar lwythi o rai nwyddau o'r UE sy'n cael eu mewnfario i Brydain. Mae hyn yn ymwneud â chynhyrchion risg ganolig sy'n dod o anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion a bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid. Mae angen ardystiad ar nwyddau risg uchel yn y categorïau hyn eisoes, yn ogystal ag anifeiliaid byw. Ni fydd angen ardystiad ar nwyddau risg isel yn y categorïau hyn.
50. Er bod agweddau ar drefn y ffin wedi'u datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda llywodraethau eraill i ddatblygu rheolau cydlynol a chyson sy'n parchu ein safonau uchel o fioggiogelwch, gan gynnal hyfywedd busnesau gan gynnwys y porthladdoedd ar yr un pryd.
51. Ni fydd gwiriadau ffisegol mewn porthladdoedd yn dechrau eto. Byddant yn dechrau ar 30 Ebrill ar gyfer y rhan fwyaf o fewnforion, ond yn ddiweddarach ar nwyddau o lwerddon. Felly, nid yw'r dyddiad pan fydd gwiriadau ffisegol yn dechrau ym mhorthladdoedd fferi Cymru wedi'i bennu eto.
52. Ni fu modd cytuno ar ddyddiad eto ar gyfer dechrau gwiriadau ffisegol ar nwyddau sy'n dod o lwerddon, ac felly pan fydd tri Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi, Doc Penfro ac Abergwaun yn agor. Bydd Gweinidog yr Economi yn gwneud cyhoeddiad ar hyn cyn gynted

ag y cytunir ar y dyddiad gyda Llywodraethau'r Alban a'r DU. Byddwn yn sicrhau bod busnesau'n cael digon o amser i baratoi ar gyfer y newid hwn.

53. Bydd gennym dri Safle Rheolaethau'r Ffin (Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun) yng Nghymru ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac Awdurdodau Lleol Cymru, Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, Rhanddeiliaid ac ati i sicrhau bod y drefn – gan gynnwys y drefn codi tâl – yn addas i'r diben ar gyfer y porthladdoedd llai hyn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig Gweinidog yr Economi – Papur Tystiolaeth 6 Mawrth 2024

Mae'r papur hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r gweithgareddau yn fy mhortffolio ers ein sesiwn graffu gyffredinol ddiwethaf ym mis Rhagfyr.

Cafodd cynnwys y papur hwn ei baratoi cyn y gyllideb derfynol sydd i ddod, ac mae'n amodol ar y gyllideb honno. Dim ond newydd eu pennu mae cynlluniau gwario ar gyfer 2024-5, neu maen nhw wrthi'n cael eu pennu, a bydd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad o Wariant.

Er bod y pwysau enbyd ar arian cyhoeddus yn dal yn heriol, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar gryfhau economi Cymru wrth adeiladu Cymru fwy teg a gwyrdd i bawb.

Rwy'n edrych ymlaen at drafod y materion canlynol gyda'r pwyllgor mis nesaf.

Model Gweithredu Targed y Ffin

Cafodd Model Gweithredu Targed y Ffin ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU ym mis Awst 2023, gyda chytundeb Llywodraethau Cymru a'r Alban, gan nodi mesurau diogelu ar gyfer bioddiogelwch a diogelwch bwyd. Y garreg filltir gyntaf ar gyfer rheolaethau'r ffin ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol wedi'u mewnfario o'r UE – gan gynnwys Iwerddon – oedd 31 Ionawr 2024, ac rwy'n falch o ddweud bod y broses weithredu yn un ddiraffferth ac nad adroddwyd llawer o broblemau. Mae'r cam cyntaf yn gofyn am dystysgrif iechyd a rhag-hysbysiad, gydag adolygiad gan ganolfan ganolog sy'n darparu adborth. Dros amser, bydd y gorfodi'n cynyddu.

Ar gyfer mewnfario o wledydd ar wahân i Iwerddon, bydd gwiriadau ffisegol yn dechrau ar 30 Ebrill. Nid ydym wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforion o Iwerddon eto. Rwyf wedi addo y byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i fusnesau er mwyn iddynt allu paratoi. Yn y cyfamser, mae Cymru'n parhau i gynllunio ar gyfer tri Safle Rheolaethau'r Ffin ar gyfer gwiriadau iechydol a ffytoiechydol: Safle wedi'i redeg gan y llywodraeth yng Nghaergybi; a dau gyfleuster wedi'u rhedeg gan y porthladd yn Abergwaun a Doc Penfro.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi "Safeguarding the Union" (31 Ionawr 2024), sy'n nodi rheolau ar gyfer nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae nodweddion i'w croesawu, gan gynnwys tynhau'r diffiniad o Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn ailddatgan ymrwymiad ym Model Gweithredu Targed y Ffin a oedd yn rhan allweddol o'n cytundeb, gan gynyddu bioddiogelwch ac atal masnach rhag cael ei dargyfeirio oddi wrth borthladdoedd yng Nghymru. Cyflwynwyd Offeryn Statudol y DU i roi'r newid hwn ar waith i Senedd y DU ar 1 Chwefror 2024. Mae darpariaethau mewn Offeryn Statudol arall yn sicrhau bod Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon sy'n teithio drwy Iwerddon (er enghraifft ar y fferi o Ddilyn i Gaergybi) yn cadw mynediad dirwystyr at farchnad Prydain Fawr, sydd eto'n diogelu ein llwybrau masnach.

Fodd bynnag, mae *Safeguarding our Union* hefyd yn cynnwys datganiad na fydd Safle Rheolaethau'r Ffin yn Cairnryan, er ei fod yn cadarnhau bod rheolau Model Gweithredu Targed y Ffin yn berthnasol i nwyddau o Iwerddon (ar wahân i Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon) sy'n cael eu mewnfario i Brydain Fawr ar y llwybr hwnnw. Rydyn ni'n pwysu ar Lywodraeth y DU i gael rhagor o wybodaeth am ei chynnig i gynyddu bioddiogelwch ac atal masnach rhag cael ei dargyfeirio oddi wrth borthladdoedd yng Nghymru.

Mae'n hollbwysig bod gennym reolau clir ar gyfer nwyddau sy'n dod o Iwerddon i Brydain Fawr a bod awdurdodau ar y rheng flaen yn gallu gwahaniaethu rhwng Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon a nwyddau eraill sy'n rhwym wrth drefn Model Gweithredu Targed y Ffin, ac nad yw'r rheolau'n cael eu camddefnyddio.

Mewn cyflwr sefydlog, mewnforywr fydd yn talu costau gwiriadau ffin ac mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i dalu costau adeiladu Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yng Nghymru, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes. Fodd bynnag, nid yw wedi ymrwymo i ariannu costau ehangach, er enghraifft recriwtio a hyfforddi staff i gynnal y gwiriadau. Mae hon yn gost sy'n gysylltiedig â Brexit, a dylai Llywodraeth y DU ei hariannu. Heb yr ymrwymiad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cychwynnol er mwyn i Sir Benfro ac Ynys Môn allu dechrau paratoi. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt recriwtio staff ychwanegol cyn dechrau cynnal gwiriadau ffisegol, felly bydd angen dod o hyd i gyllid cyn cytuno ar ddyddiad dechrau.

Masnach rhwng y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn hollbwysig i economi Cymru. Dyma'r sail ar gyfer masnach mewn nwyddau rhwng Cymru (a gweddill y DU) a'r UE. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau tegwch yn y farchnad ar gyfer cystadleuaeth agored a theg drwy atal camystymiadau masnach neu fuddsoddiadau, sy'n cyfyngu'n anuniongyrchol ar y posibilrwydd o wahaniaethau mewn materion fel rheoliadau'r amgylchedd a chyflogaeth, a chymorth gwladwriaethol/cymorthdaliadau cyhoeddus.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu strwythur cymhleth o bwyllgorau rhwng y DU a'r UE i oruchwylio ei weithrediaeth, yn benodol mewn cysylltiad â masnach a thegwch yn y farchnad. Mae'r pwyllgorau hyn yn edrych ar amrywiaeth o faterion ac yn darparu ar gyfer penderfyniadau ar y cyd i ddelio â materion brys neu rai sy'n datblygu. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2023, gwnaeth y DU a'r UE benderfyniad ar y cyd ei bod er budd y naill a'r llall i ymestyn rheolau masnachu â therfyn amser ar gyfer cerbydau trydan i leihau'r costau i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr, ac i roi hwb i werthiannau cerbydau trydan.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi cael ei ddatblygu'n barhaus ers cytuno arno mewn amgylchiadau anodd ychydig dros dair blynedd yn ôl. I ddechrau, prin oedd ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynnwys y llywodraethau datganoledig yn weithredol i sicrhau bod y system yn gweithio yn unol â'r setliad datganoli. Mae'n ymddangos bod pethau'n fwy cadarnhaol erbyn hyn, ond hoffem weld gwelliannau o hyd.

Rydyn ni wedi galw am gynnwys y llywodraethau datganoledig yn llawn wrth baratoi safbwyntiau'r DU ar gyfer cyfarfodydd â'r UE ar faterion datganoledig, neu ar faterion

heb eu datganoli sy'n cael effaith arwyddocaol ar gyfrifoldebau datganoledig. Dylai wedyn arwain at ddarparu ar gyfer cyfranogiad y llywodraethau datganoledig fel rhan o ddirprwyaeth y DU yn y cyfarfodydd ffurfiol hynny. Mae hyn yn cyfateb i'r hyn a oedd yn digwydd pan oedd y DU yn negodi yn yr UE fel aelod-wladwriaeth. Ni ddylai greu unrhyw broblemau ymarferol na chyfansoddiadol nawr bod y DU yn drydedd wlad.

Hefyd, rhaid i'r Llywodraeth y DU fod yn fwy agored yn ei dull o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a dylai geisio safbwyntiau rhanddeiliaid yn hyn o beth. Mae strwythurau pwysig yn y Cytundeb y dylem adeiladu arnynt, fel Grŵp Cynghori Domestig y DU sy'n bwydo i Fforwm Cymdeithas Sifil y DU a'r UE. Mae'r rhain yn cael dylanwad mwy a mwy arwyddocaol ar ddull gweithredu'r DU a'r UE. Rwy'n falch bod mewnbwn Cymreig effeithiol i Grŵp Cynghori Domestig y DU a hoffwn ei weld yn cael ei gryfhau.

Mae hefyd rôl gynyddol i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan ddod â Seneddwyr o'r DU a'r UE ynghyd. Rwy'n ddiolchgar i Senedd Cymru am anfon Aelodau i arsylwi ar hyn ac yn gobeithio y gall eu dylanwad ynddo gynyddu.

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, sy'n cael ei gadeirio gan Weinidog Ewrop o'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yn cyfarfod cyn cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y DU-UE mewn cysylltiad â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar lefel Weinidogol. Mae'n goruchwyllo mewnbwn llywodraethau datganoledig i weithrediad y Cytundeb. Rwy'n mynychu fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru.

Porthladdoedd Rhydd

Ym mis Mai 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sefydlu rhaglen Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2023, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd i wahodd dau ddarpar borthladd rhydd yng Nghymru i ddatblygu achos busnes: Porthladd Rhydd Ynys Môn; a'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot.

Yn Natganiad yr Hydref yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniad i Borthladdoedd Rhydd Lloegr o bum mlynedd i ddeg, a dilynodd hynny gan gyhoeddi Map Cyflawni Porthladdoedd Rhydd. Mae'r Map yn cynnwys Cronfa Cyfleoedd Buddsoddi gwerth £150 miliwn i helpu i ddenu buddsoddiad mewn Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi. Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd Porthladdoedd Rhydd Cymru'n elwa ar y cyhoeddiadau hyn.

Mae gan Borthladdoedd Rhydd Cymru uchelgais i greu 29,000 o swyddi a denu £6.9 biliwn o fewnfuddsoddiad. Bydd y Porthladdoedd Rhydd a busnesau yn cael cymorth drwy amrywiaeth o gymelliadau treth, gan gynnwys rhyddhad y Dreth Trafodiadau Tir ac ardrethi annomestig. Byddant hefyd yn cael cymorth drwy gadw ardrethi annomestig am 25 mlynedd i fuddsoddi mewn adfywio a seilwaith, cyllid cyfalaf sbarduno (hyd at £25m), a chyllid refeniw (£1m) ar gyfer pob Porthladd Rhydd.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyflwynodd consortia Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladd Rhydd Celtaidd eu Hachosion Busnes Amlinellol. Mae swyddogion ar draws

Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â swyddogion o Lywodraeth y DU, wrthi'n asesu'r Achosion hyn yn fanwl.

Parthau Buddsoddi

Amlinellais gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dau Barth Buddsoddi yng Nghymru ar 7 Tachwedd 2023. Cytunodd y Canghellor ar hyn a'i gyhoeddi yn Natganiad yr Hydref yn 2023. Bydd un yn y Gogledd-ddwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam) ac un yn y De-ddwyrain (ardaloedd teithio i'r gwaith Caerdydd a Chasnewydd).

Mae trafodaethau ar y cyd bellach yn mynd rhagddynt rhwng swyddogion yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i nodi blaenoriaethau buddsoddi ym mhob Parth Buddsoddi, ac i ddechrau'r broses o ddatblygu achosion busnes. Mae Canllawiau Technegol i helpu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu achosion busnes wrthi'n cael eu trafod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ar ôl cytuno ar y canllawiau a'u cyhoeddi ar y cyd, bydd y Cyd-bwyllgorau yn gallu cyflwyno achosion busnes yn ffurfiol.

Sgiliau a Phrentisiaethau

Y llynedd, cyhoeddais Gynllun Sgiliau Sero Net Cymru. Ym mis Hydref, cyhoeddais ymgynghoriad sgiliau sector sero net a fydd yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu ein mapiau sgiliau. Wrth lunio'r cynllun, buom yn gweithio ar draws y llywodraeth, gyda rhanddeiliaid allanol a phartneriaid allweddol i gael darlun o'r dirwedd sgiliau sero net yn erbyn yr wyth sector allyriadau sydd wedi'u hamlinellu yn Sero Net Cymru.

Yn y gwanwyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi mapiau sgiliau sector a fydd yn cynnwys y prif gerrig milltir, y buddsoddiad yng Nghymru a'r gofynion sgiliau ar gyfer pob sector allyriadau. Mae gennym rôl hollbwysig i'w chwarae yn sicrhau bod sgiliau'n elfen allweddol sy'n ein galluogi i sicrhau Cymru sero net, hybu gwaith teg ynghyd â chyflogaeth dda a diogel, a gwneud yn siŵr bod y fframwaith priodol yn ei le yn gynnar. Bydd y mapiau hyn yn dylanwadu ar ein polisi ac yn ein helpu i gynllunio i sicrhau ein bod yn ysgogi'r broses o greu ein gweithlu yn y dyfodol.

Mae hyd a lled yr heriau cyllidebol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn deillio o benderfyniad Llywodraeth y DU i ddwyn pwerau ac arian oddi ar Gymru. Nid yw Llywodraeth y DU wedi disodli cyllid yr UE yn llawn, gan arwain at ddiffyg o bron i £1.3 biliwn mewn termau real i Gymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025. Roedd nifer sylweddol yn elwa ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru, yn benodol rhaglenni cenedlaethol fel Prentisiaethau, Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol, ReAct+ a Twf Swyddi Cymru+. Roedd y rhaglenni hyn a'u rhagflaenwyr yn dibynnu'n drwm ar gyllid Ewropeaidd (er enghraifft, roedd rhaglenni cyflogadwyedd yn cael tua £30m y flwyddyn). Yn siomedig, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod unrhyw rôl gwneud penderfyniadau neu fynediad at gyllid yn lle cyllid yr UE drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, ni all y rhaglenni hyn barhau i weithredu ar yr un raddfa ag o'r blaen.

Yn y cyfamser, rwyf wedi dyrannu cyllid i weithgareddau hollbwysig sy'n sicrhau bod y system sgiliau yng Nghymru yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar ein buddsoddiad a'n hymdrechion parhaus mewn meysydd allweddol fel

Prentisiaethau a Twf Swyddi Cymru+. Ers mis Mai 2021, rydyn ni wedi cyflawni dros 43,000 o brentisiaethau bob oed newydd. Rhwng mis Ionawr 2015 a diwedd mis Rhagfyr 2023, disgwylir bod y rhaglen brentisiaethau wedi tynnu £206m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i lawr, gan gefnogi tua 5,000 o brentisiaethau yng Nghymru. Dyma faint y twll yn sgil tynnu cyllid yr UE.

Yn wahanol i Loegr, rydyn ni wedi dewis diogelu ansawdd ein prentisiaethau. Mae buddsoddi mewn prentisiaethau o ansawdd uchel yn helpu dysgwyr i adeiladu gyrfaoedd cryfach. Mae'n eu helpu i ennill mwy dros y tymor hirach mewn gwaith sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen. Mae buddsoddi mewn prentisiaethau yn dal yn flaenoriaeth gwario allweddol ac er gwaethaf y cefndir ariannol, rydyn ni'n dal yn buddsoddi'n sylweddol mewn prentisiaethau. Mae'r gostyngiad yn llai o lawer na'r gostyngiad mewn llinellau eraill yn y gyllideb. Byddwn yn buddsoddi £138m flwyddyn nesaf mewn prentisiaethau o ansawdd uchel a fydd yn arwain at fanteision hirdymor a gyrfaoedd cryfach.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r rhwydwaith prentisiaethau, byddwn yn parhau i hybu a blaenoriaethu prentisiaethau o ansawdd uchel, gan gynnwys y rhai mewn sectorau lefel uwch, mwy technegol – gan symud Cymru tuag at brentisiaethau ym meysydd STEM a pharatoi at sero net. Bydd y rhaglen brentisiaethau hefyd yn parhau i chwarae rôl yn y Warant i Bobl Ifanc. Rydyn ni'n disgwyl sicrhau hyn drwy gynyddu cyfran y bobl 16-24 oed sy'n dechrau prentisiaeth (hy o fewn cyfanswm y prentisiaethau newydd y gellir eu cyflawni gyda'r gyllideb sydd ar gael).

Er na allwn sicrhau y bydd prentisiaethau ar gael i bobl ifanc, byddwn yn anelu at ddylanwadu ar gyflogwyr er mwyn cynnig rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc. Byddwn yn gweithio gyda'n rhwydwaith darparwyr i nodi opsiynau posibl ar gyfer annog cyflogwyr (gan gynnwys cysylltu â chyflogwyr newydd) i gynyddu nifer y prentisiaethau gwag sydd ar gael i bobl ifanc. Byddwn hefyd yn cynnal cyllid i'r cynllun prentisiaethau ar y cyd sy'n darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc nad ydynt yn gallu dod o hyd i swydd barhaol ddysgu sgiliau newydd yn y gweithle ac ennill cymwysterau a fydd yn eu galluogi i gael a chadw swyddi parhaol, hirdymor.

Bydd y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol yn parhau i ddarparu cyfleoedd uwchsgilio ac ailsgilio i bobl mewn gwaith. Gan eu helpu i ennill cymwysterau lefel uwch drwy ddysgu hyblyg a phersonol, bydd y rhaglen hon yn galluogi'r unigolion hyn i ddatblygu sgiliau addasadwy ac i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd mewn sectorau â blaenoriaeth. Er y bydd hyn yn helpu i gynyddu cadernid ein gweithlu, mae angen inni ystyried sut mae mynd i'r afael â'r tanfuddsoddiad gan gyflogwyr yn sgiliau eu gweithlu. Mae ein rhaglen Sgiliau Hyblyg yn rhoi cymorth i fusnesau i'w helpu i uwchsgilio ac ailsgilio eu gweithlu.

Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyflogwyr i ddatblygu dull cydfuddsoddi. Nod y dull hwn fydd darparu sail gadarn dros newid y pwyslais o ddull wedi'i arwain gan y llywodraeth o ran buddsoddi mewn sgiliau i system wedi'i chyd-sefydlu gyda chyflogwyr a'i harwain ganddynt. Dim ond drwy gydweithio gallwn fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau ledled Cymru.

Dur

Mae'r sector yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol. Mae wedi nodi nifer o flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys datgarboneiddio, masnach ryngwladol, costau trethiant carbon ac ynni, a chaffael cyhoeddus o ddur. Mae argaeledd dur sgrap o ansawdd uchel yn flaenoriaeth arall sy'n dod i'r amlwg.

Mae sicrhau newid cyfiawn i ddyfodol carbon isel yn hanfodol ac oherwydd y cymysgedd o gyfrifoldebau yn ymwneud â busnes a diwydiant sydd wedi'u cadw a'u datganoli, mae angen inni weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddarparu'r cymysgedd cywir o bolisiau.

Tata Steel UK

Mae disgwyl i Tata Steel fuddsoddi £1.25 biliwn mewn cynhyrchu dur ym Mhort Talbot, sy'n cynnwys cyllid hyd at £500 miliwn gan Lywodraeth y DU. Ar 19 Ionawr, cyhoeddodd Tata Steel ei fod yn bwriadu cau ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon, gan effeithio ar hyd at 2,800 o swyddi. Byddai effaith ar tua 2,500 o'r swyddi hyn dros y 18 mis nesaf. Mae Tata Steel yn disgwyl effaith bosibl ar y 300 arall o swyddi mewn dwy i dair blynedd yn Llan-wern. Mae'r cymunedau sy'n gartref i'r gweithfeydd dur hyn wedi'u lleoli yn rhai o'r rhannau tlotaf o'r DU. Mae'r bwriad i gau'r ffwrneisi chwyth erbyn diwedd y flwyddyn yn peri pryder go iawn. Byddai'n well gennym weld proses bontio hirach ac arafach i gynhyrchu dur gwyrdd ym Mhort Talbot. Rydw i wedi gwneud dau ddatganiad ar y mater hynod bwysig hwn yn ddiweddar.

Mae ymgynghori ffurfiol wrthi'n mynd rhagddo rhwng Tata Steel a'r undebau. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Tata Steel ac undebau ar draws safleoedd TSUK yng Nghymru. Byddwn yn parhau i drafod â'r busnes, undebau llafur a Gweinidogion y DU i gefnogi'r fargen orau i'r diwydiant dur.

Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu Bwrdd Pontio ac wedi darparu £100m o gyllid (£80m gan y Llywodraeth a hyd at £20m gan TSUK) ar gyfer cymorth tymor byr ac adfywio economaidd tymor hir. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod dair gwaith hyd yma. Mae gan Lywodraeth Cymru sbardunau a gwybodaeth sy'n hollbwysig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol y gwaith hwn. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd mewn ffordd ddiffuant a thryloyw i gefnogi meysydd o flaenoriaeth ar y cyd, ac i geisio cyflawni'r canlyniadau gorau i bawb.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel y Ganolfan Byd Gwaith, Cymru'n Gweithio, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, undebau llafur a sefydliadau trydydd sector i sicrhau bod cymunedau, busnesau a phobl a fydd yn colli eu swydd yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch y cymorth sydd ar gael.

Ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael gan Tata Steel ei hun a gan ein sefydliadau partner, gall rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, ReAct+ a Cymunedau am Waith+, ddarparu cymorth drwy hyfforddiant a mentora i'r rhai sy'n dymuno aros yn y farchnad lafur. Bydd Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth i fusnesau'r gadwyn gyflenwi yr effeithir arnynt. Mae Banc Datblygu Cymru'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru ac i roi mecanwaith cymorth gwerthfawr i fusnesau Cymru, yn enwedig mewn cyfnodau hollbwysig o ansicrwydd economaidd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon